ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

System anghenion dysgu ychwanegol (ADY): canllaw i rieni

Canllaw i rieni a theuluoedd ynghylch sut y bydd plant yn symud i'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) rhwng mis Medi 2021 a mis Awst 2022

System anghenion dysgu ychwanegol (ADY): canllaw i rieni

Cynulleidfa

Mae'r canllaw hwn wedi'i ysgrifennu ar gyfer rhieni a theuluoedd.

Trosolwg

Mae'r canllaw hwn yn nodi'r trefniadau ar gyfer y flwyddyn gyntaf o weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (y Ddeddf ADY).

Mae'r canllaw yn egluro sut y bydd rhai grwpiau o blant yn symud o'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) i'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae hefyd yn egluro beth mae'r system newydd yn ei olygu i blant a'u rhieni.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y ddogfen hon at:
Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: GweithreduADY@llyw.cymru

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru

Dogfennau cysylltiedig

Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021
llyw.cymru/y-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG43966 ISBN digidol 978 1 80391 323 0

Cynnwys

1. Diben y canllaw hwn 2
2. Beth yw ADY a darpariaeth ddysgu ychwanegol? 2
3. Beth sy'n newid i blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig? 3
4. Beth yw'r system ADY a pha wahaniaeth mae'n ei wneud i blant, eu rhieni a phobl ifanc 4
5. Pryd a sut y bydd plant a phobl ifanc yn symud i'r system newydd 9
6. Cwestiynau cyffredin 17

1. Diben y canllaw hwn

Mae'r system ADY yn cael ei rhoi ar waith rhwng mis Medi 2021 a mis Awst 2024.

Mae'r canllaw hwn yn esbonio beth yw'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a sut y bydd rhai plant yn symud i'r system ADY rhwng mis Medi 2021 a mis Awst 2022.

Mae adran 5 y canllaw yn trafod pryd a sut y bydd plant o dan oedran ysgol gorfodol (blynyddoedd cynnar), plant o oedran ysgol gorfodol a phobl ifanc yn symud i'r system newydd.

Cyhoeddir canllawiau ar wahân sy'n esbonio sut y bydd plant a phobl ifanc eraill yn symud i'r system ADY rhwng mis Medi 2022 a mis Awst 2024. Mae hyn yn cynnwys plant â datganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA) a phlant nad ydynt yn mynychu meithrinfa awdurdod lleol neu ysgol awdurdod lleol.

2. Beth yw ADY a darpariaeth ddysgu ychwanegol?

Mae plant a phobl ifanc ag ADY angen cymorth ychwanegol i ddysgu. Byddai hyn oherwydd:

- eu bod yn ei chael hi'n anoddach dysgu na phlant eraill o'r un oedran, neu
- fod ganddynt anabledd sy'n golygu na allant ddefnyddio, neu eu bod yn ei chael hi'n anodd defnyddio, cyfleusterau ar gyfer dysgu yn y feithrinfa, yr ysgol neu'r coleg lleol

Nid oes gan rai plant a phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol mewn meithrinfa, ysgol, uned cyfeirio disgyblion (UCD) neu goleg ADY. Efallai mai'r cyfan sydd ei angen ar y plant neu'r bobl ifanc hyn yw rhywfaint o help i ddal i fyny.

Gelwir y cymorth ychwanegol a roddir i blant ag ADY i'w helpu i ddysgu yn ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Rhaid i'r ddarpariaeth hon gael ei chynnwys mewn cynllun cymorth o'r enw cynllun datblygu unigol (CDU).

Ystyr darpariaeth ddysgu ychwanegol i blentyn sy'n iau na 3 oed yw darpariaeth addysgol o unrhyw fath.

Darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer person 3 oed neu hŷn yw addysg neu hyfforddiant mewn meithrinfa, ysgol, UCD neu goleg gan amlaf sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i, yr hyn sydd ar gael i'r rhan fwyaf o blant o'r un oedran.

Mae hyn yn golygu bod darpariaeth ddysgu ychwanegol yn gymorth sydd ar gael mewn meithrinfeydd, ysgolion neu golegau gan amlaf, ond nid yw'r rhan fwyaf o blant neu bobl ifanc o'r un oedran angen defnyddio'r cymorth hwn i wneud cynnydd.

Gall darpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei darparu gan athrawon, cynorthwywyr addysgu neu diwtoriaid. Gall gael ei darparu hefyd gan wasanaethau arbenigol fel therapydd lleferydd ac iaith neu athrawon pobl fyddar. Gall hefyd olygu defnyddio technoleg fel cymhorthion radio.

Weithiau, efallai y bydd angen i blentyn fynychu meithrinfa, ysgol, UCD neu goleg penodol neu ysgol arbennig neu goleg arbennig i gael y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen arno.

Gall darpariaeth ddysgu ychwanegol hefyd fod yn adnodd fel rhaglen gyfrifiadurol benodol, ap neu hyd yn oed declyn gafael mewn pensil i gynorthwyo gydag ysgrifennu. Darpariaeth ddysgu ychwanegol yw unrhyw ddarpariaeth addysg sy'n ychwanegol at yr hyn sydd ar gael i'r rhan fwyaf o blant o'r un oedran, neu'n wahanol i hynny.

Gall darpariaeth ddysgu ychwanegol hefyd fod yn unrhyw ddarpariaeth hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i, yr hyn sydd ar gael i'r rhan fwyaf o bobl ifanc o'r un oedran.

Mae adran 4 yn nodi beth i'w wneud os ydych chi'n meddwl bod gan blentyn neu berson ifanc ADY.

3. Beth sy'n newid i blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig?

Mae Llywodraeth Cymru yn newid y ffordd mae plant a phobl ifanc ag AAA yn cael eu cynorthwyo. Gelwir y cymorth mae plant ag AAA yn ei dderbyn yn ddarpariaeth addysgol arbennig.

Rydym yn disodli'r hen system (AAA) gyda'r system ADY newydd.

Pan gyflwynir y system ADY, byddwch yn sylwi ar y newidiadau canlynol i'r hyn mae pethau'n cael eu galw:

- bydd anghenion addysgol arbennig (AAA) yn dod yn anghenion dysgu ychwanegol (ADY)
- bydd cydlynwyr anghenion addysgol arbennig (CAAA) yn dod yn gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (CADY)
- bydd darpariaeth addysgol arbennig yn dod yn ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY)
- bydd cynlluniau fel cynlluniau addysg unigol (CAU), datganiadau a chynlluniau dysgu a sgiliau yn cael eu disodli gan gynllun newydd o'r enw cynllun datblygu unigol (CDU)

Bydd rhai pethau yn aros yr un fath. Mae bod ag ADY yr un fath â bod ag AAA. Mae hyn yn golygu os oes gan blentyn neu berson ifanc AAA, mae'n debygol iawn y bydd ganddo ADY hefyd. Ac mae'n golygu y bydd y ddarpariaeth addysgol arbennig mae plant a phobl ifanc yn ei chael i'w helpu i ddysgu yn y feithrinfa, yr ysgol, yr UCD neu'r coleg gan fod ganddynt AAA yn parhau, os oes ei hangen o hyd, ond bydd bellach yn cael ei galw'n ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

4. Beth yw'r system ADY a pha wahaniaeth mae'n ei wneud i blant, eu rhieni a phobl ifanc

Ffyrdd newydd o weithio

Rydym am sicrhau:

- ein bod yn gwrando ar farn, dymuniadau a theimladau plant, eu rhieni a phobl ifanc pan fo penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch sut i helpu plant a phobl ifanc
- bod y cymorth cywir yn cael ei roi ar waith yn gyflym i helpu plant a phobl ifanc ag ADY
- bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd i helpu plant a phobl ifanc ag ADY, gan gynnwys addysg a gwasanaethau iechyd
- bod y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc ag ADY yn gallu mynd i'w meithrinfa, ysgol, UCD neu goleg lleol, os yw'n briodol iddynt
- bod plant a'u teuluoedd yn gallu cael mynediad at gymorth dysgu hyd yn oed cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol neu'r feithrinfa
- bod plant, eu rhieni a phobl ifanc yn deall y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n cael ei chynnig
- bod plant a phobl ifanc ag ADY yn cael help yn y Gymraeg lle bynnag y bo modd os oes ei angen arnynt

Hawliau newydd i blant, eu rhieni a phobl ifanc

Hawl i bob plentyn a pherson ifanc ag ADY gael cynllun statudol

Ar hyn o bryd, mae 2 system ar gyfer plant sydd angen cymorth i ddysgu. Mae gan rai plant a phobl ifanc ddatganiad ac mae gan rai gynllun ysgol, UCD neu goleg.

Cynlluniau statudol yw datganiadau. Mae hyn yn golygu bod cyfreithiau ynghylch pwy ddylai fod â datganiad, pa mor hir y gall ei gymryd i wneud datganiad ar gyfer plentyn neu berson ifanc a'r hyn y dylid ei roi yn y datganiad.

Mae hefyd yn golygu os nad yw plant, eu rhieni neu bobl ifanc yn hapus â phenderfyniadau am ddatganiadau, mae hawliau yn y gyfraith i wneud rhywbeth am hynny.

Nid yw cynlluniau addysg unigol yn gynlluniau statudol. Mae hyn yn golygu os nad yw plant, eu rhieni neu bobl ifanc yn hapus â phenderfyniadau am eu cynlluniau addysg unigol, nad oes ganddynt hawliau yn y gyfraith i wneud rhywbeth am hynny.

Mae gan y system ADY un ffordd o wneud pethau. Bydd gan blant a phobl ifanc sydd ag ADY gynllun newydd o'r enw cynllun datblygu unigol (CDU). Mae pob CDU yn statudol. Mae hyn yn golygu y bydd gan blant, eu rhieni a phobl ifanc hawliau yn y gyfraith i wneud rhywbeth am benderfyniadau am ADY nad ydynt yn hapus â nhw. Mae'r wybodaeth o dan y pennawd nesaf ('Hawl i blant, eu rhieni a phobl ifanc herio penderfyniadau am ADY y maent yn anghytuno â nhw') yn dweud mwy am yr hyn y gall plant, eu rhieni a phobl ifanc ei wneud os ydynt yn anghytuno â phenderfyniadau am ADY.

Ac eithrio o dan amgylchiadau prin, bydd pob plentyn a pherson ifanc ag AAA wedi symud i'r system ADY erbyn mis Awst 2024. Mae hyn yn golygu na fydd gan blant a phobl ifanc gynlluniau AAA fel datganiad, cynllun addysg unigol (CAU), cynllun gweithredu gan yr ysgol, cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy, neu gynllun dysgu a sgiliau yn y dyfodol. Yn hytrach, bydd ganddynt CDU.

Bydd CDU gan bob plentyn rhwng 0 ac 16 oed sydd ag ADY. Bydd gan bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed sydd ag ADY hawl i gael CDU os byddant yn aros mewn addysg.

Bydd y CDU yn dweud pa gymorth sydd ei angen ar blentyn neu berson ifanc i'w helpu i ddysgu. A beth fydd yn cael ei wneud fel eu bod yn cael cymorth priodol mewn meithrinfa, ysgol, UCD neu goleg. Mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i'r cymorth a roddir yn y cynllun gael ei ddarparu i'r plentyn neu'r person ifanc. Mae'r gyfraith hefyd yn dweud bod rhaid i unrhyw ddarpariaeth arall sydd ei hangen, fel lle mewn ysgol arbennig neu fwyd a llety i fynychu ysgol benodol, gael ei darparu i'r plentyn neu'r person ifanc.

Rhaid i'r cynllun ddweud:

- y math o ADY sydd gan y plentyn neu'r person ifanc (angen)
- sut y bydd y plentyn neu'r person ifanc yn cael cymorth i ddysgu, a phwy fydd yn rhoi'r cymorth iddo (darpariaeth)
- yr hyn y bydd y plentyn neu'r person ifanc yn gallu ei gyflawni pan fydd y cymorth yn cael ei roi ar waith (deilliant)
- enw unrhyw feithrinfa, ysgol neu goleg y bydd angen i'r plentyn neu'r person ifanc fynd iddo o bosibl
- os dylai'r cymorth fod yn Gymraeg
- gwybodaeth am y rhesymau dros yr hyn a nodir yn y cynllun
- pethau sydd wedi digwydd sy'n gwneud gwahaniaeth i ADY y plentyn neu'r person ifanc

Hawl i blant, eu rhieni a phobl ifanc herio penderfyniadau am ADY y maent yn anghytuno â nhw

Gall plant, eu rhieni a phobl ifanc herio penderfyniadau a wnaed gan ysgol, UCD, awdurdod lleol neu goleg am ADY os ydynt yn anghytuno â nhw. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau ynghylch:

- a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY
- y ffordd mae ADY plentyn neu berson ifanc yn cael eu disgrifio mewn CDU
- y cymorth a ddisgrifir yn y CDU
- pwy sy'n gyfrifol am gynnal CDU – ysgol, UCD, coleg neu awdurdod lleol

Ffyrdd newydd o ddatrys anghytundebau

Gwahoddir plant, eu rhieni a phobl ifanc i gymryd rhan yn y gwaith o lunio CDU. Gallai hyn olygu cyfarfod â'r CADY a thrafod y cymorth ADY sydd ei angen.

Bydd cydweithio yn rhoi cyfleoedd i drafod unrhyw broblemau ac yn helpu i'w datrys yn gynnar.

Y rhan fwyaf o'r amser, gellir datrys anghytundebau ynghylch cymorth drwy drafod y broblem gyda'r ysgol, UCD, awdurdod lleol neu goleg.

Hawl i ofyn i awdurdod lleol ailystyried penderfyniad a wnaed gan feithrinfa awdurdod lleol, ysgol awdurdod lleol neu UCD

Gall plentyn, rhiant neu berson ifanc sy'n anhapus â phenderfyniad a wnaed gan feithrinfa awdurdod lleol, ysgol awdurdod lleol neu UCD ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried y penderfyniad. Rhaid i'r awdurdod lleol ailystyried y penderfyniad a wnaed gan yr ysgol neu'r UCD. Rhaid i'r awdurdod lleol wneud hyn mewn 7 wythnos.

Hawl i eiriolwr siarad dros blant a phobl ifanc sy'n anghytuno â phenderfyniad am ADY

Credwn ei bod hi'n bwysig cael rhywun i gynghori plant a phobl ifanc a siarad ar eu rhan os oes anghytundeb.

Mae yna bobl sy'n helpu ac yn siarad ar ran plant a phobl ifanc fel eu swydd. Eiriolwyr yw'r rhain. Gall eiriolwyr ddweud wrth bobl sut mae plant a phobl ifanc yn teimlo a beth sydd ei angen arnynt i'w helpu yn yr ysgol, yr UCD neu'r coleg.

Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael eiriolwr i'w helpu a siarad drostynt os oes anghytundeb. Bydd eiriolwr yn siarad ar ran plentyn neu berson ifanc pan fydd yn defnyddio gwasanaethau datrys anghydfod neu os yw am wneud apêl i'r Tribiwnlys Addysg.

Gall plant a phobl ifanc ofyn i'r awdurdod lleol am eiriolwr.

Hefyd, rhaid i awdurdodau lleol ddweud wrth blant, eu rhieni a phobl ifanc am eiriolwyr.

Os bydd plentyn neu berson ifanc yn gofyn am eiriolwr i'w helpu gydag apêl bosibl, i siarad ar ei ran mewn apêl neu i siarad ar ei ran wrth ddefnyddio gwasanaethau datrys anghydfod, rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod eiriolwr ar gael. Nid oes unrhyw gost i blant, pobl ifanc na'u teuluoedd am wasanaethau a ddarperir gan eiriolwr awdurdod lleol.

Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod pob eiriolwr:

- yn deall popeth am ADY
- yn gwybod sut i siarad â phlant a phobl ifanc mewn gwahanol ffyrdd, fel defnyddio iaith arwyddion
- yn ddiogel i weithio gyda phlant a phobl ifanc

Defnyddio gwasanaethau datrys anghydfod

Gall plant, eu rhieni a phobl ifanc ofyn am newid rhai penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol pan fyddant yn ailystyried penderfyniadau a wnaed gan ysgolion ac UCDau. Yr enw am ofyn am newid penderfyniad yw gwneud apêl.

Mae gwneud apêl yn golygu y bydd grŵp o bobl annibynnol, un â chymwysterau cyfreithiol, yn penderfynu a ddylai penderfyniad gael ei newid neu ei ailystyried. Tribiwnlys Addysg yw hyn.

Bydd y plentyn, ei riant neu'r person ifanc yn gallu defnyddio gwasanaeth datrys anghydfod yr awdurdod lleol cyn gwneud apêl i'r Tribiwnlys.

Rhaid i bob awdurdod lleol wneud trefniadau ar gyfer gwasanaethau datrys anghydfod annibynnol i helpu i ddatrys anghytundebau rhwng rhieni, awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae'r gwasanaeth yn gwneud hyn drwy helpu pawb dan sylw i drafod yr anghytundeb a gweithio tuag at ateb.

Mae gwasanaethau datrys anghydfod yn lleihau'r angen i fynd ag anghytundeb i'r Tribiwnlys a gall arwain at setlo anghytundebau'n gyflymach. Mae hyn yn osgoi tarfu'n ddiangen ar ddysgu a gall arbed llawer o amser ac arian i bawb dan sylw.

Nid yw defnyddio gwasanaethau datrys anghydfod yn orfodol. Gall plant, eu rhieni a phobl ifanc wneud apêl i'r Tribiwnlys heb ddefnyddio gwasanaethau datrys anghydfod.

Ac nid yw defnyddio'r gwasanaeth datrys anghydfod yn atal plentyn, ei rieni na pherson ifanc rhag gwneud apêl. Hyd yn oed os oes apêl wedi'i gwneud, gall plant, eu rhieni a phobl ifanc barhau i siarad â'r awdurdod lleol i geisio dod i gytundeb.

Cael help gan ffrind achos

Mae gan blant hawliau o dan y system ADY. Mae'r rhain yn cynnwys hawliau i gael gwybodaeth, i ofyn am bethau fel adolygiad o CDU, ac i herio penderfyniadau.

Ni fydd rhai plant yn gallu deall yr hawliau hyn. Os nad yw plentyn yn deall, gall ffrind achos siarad ar ran y plentyn, cefnogi'r plentyn a gwneud penderfyniadau ar ran y plentyn.

Yn benodol, mae ffrindiau achos yn helpu plant i gyflwyno anghytundeb – achos – i'r Tribiwnlys. Mae cyfaill achos yn gwneud hyn drwy weithredu ar ran plentyn wrth wneud apêl.

Gall plant a'u rhieni ofyn i'r Tribiwnlys am ffrind achos i'r plentyn.

Gall ffrindiau achos hefyd helpu plant i ddeall gwybodaeth a roddir iddynt am y system ADY.

Gall ffrind achos gael eiriolwr yn yr un modd ag y gall plentyn gael un.

Gwneud apêl i'r Tribiwnlys

Gall plant, eu rhieni a phobl ifanc apelio i'r Tribiwnlys os ydynt yn anghytuno â phenderfyniad a wnaed gan awdurdod lleol neu goleg. Gall ffrind achos helpu plentyn i wneud hyn. Ni ellir apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan ysgolion ac UCDau. Gall plant, eu rhieni a phobl ifanc ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried penderfyniad a wnaed gan ysgol neu UCD. Rhaid i'r awdurdod lleol wneud hyn a gwneud penderfyniad ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd.

Os yw plentyn, ei riant neu berson ifanc yn anghytuno â phenderfyniad yr awdurdod lleol ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd nesaf, gall apelio i'r Tribiwnlys.

Gall plant, eu rhieni neu bobl ifanc wneud apêl i'r Tribiwnlys ynghylch:

- penderfyniad gan goleg neu awdurdod lleol ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY
- penderfyniad gan awdurdod lleol nad oes angen llunio CDU ar gyfer person ifanc
- y ffordd y disgrifir ADY plentyn neu berson ifanc yn ei CDU
- y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd wedi'i chynnwys mewn CDU
- y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd heb ei chynnwys mewn CDU
- penderfyniad ynghylch a ddylai darpariaeth ddysgu ychwanegol fod yn Gymraeg
- peidio â chynnwys meithrinfa, ysgol neu goleg penodol mewn CDU
- peidio â chynnwys darpariaeth arall sydd ei hangen – fel peidio â chynnwys bwyd a llety i fynychu meithrinfa, ysgol neu goleg penodol
- penderfyniad awdurdod lleol i beidio â bod yn gyfrifol am CDU yn hytrach na meithrinfa, ysgol, UCD neu goleg
- penderfyniad awdurdod lleol i beidio â newid CDU y mae'r ysgol neu'r UCD yn gyfrifol amdano
- coleg neu awdurdod lleol yn gwrthod penderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY gan ei fod wedi penderfynu hyn o'r blaen ac nad yw'n credu bod unrhyw beth wedi newid
- penderfyniad i ddod â CDU i ben

Cael help gan sefydliadau sy'n gwybod am ADY a'r cymorth y dylai plant a phobl ifanc ei gael

Gall plant, eu rhieni neu bobl ifanc siarad â'u hathro, tiwtor personol neu CADY os ydynt yn credu bod ganddynt ADY.

Os nad yw eich plentyn yn mynychu ysgol a gynhelir, gallwch siarad â gweithiwr proffesiynol fel ymwelydd iechyd neu gallwch ddweud wrth eich awdurdod lleol.

Gall llawer o sefydliadau ddarparu gwybodaeth a chyngor am ADY, gan gynnwys:

- eich awdurdod lleol
- SNAP Cymru
- Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar
- Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru
- Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB) Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru

Gallwch hefyd anfon e-bost at Lywodraeth Cymru.

5. Pryd a sut y bydd plant a phobl ifanc yn symud i'r system newydd

Pryd y bydd plant a phobl ifanc yn symud i'r system ADY

Crynodeb

Bydd symud plant a phobl ifanc o'r system AAA i'r system ADY yn digwydd dros 3 blwyddyn ysgol. Dechreuodd y symud ym mis Medi 2021 a bydd yn dod i ben ym mis Awst 2024.

Rydym yn cymryd 3 blynedd i sicrhau bod digon o amser i feithrinfeydd, ysgolion, UCDau, colegau ac awdurdodau lleol drafod y cymorth sydd ei angen a llunio cynlluniau.

Plant nad oes ganddynt AAA

1 Medi 2021	Dechreuodd y system ADY ar gyfer plant (o'u geni hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 10) nad oedd ganddynt AAA ar 1 Medi. Y rheswm am hyn yw nad oeddent yn derbyn unrhyw ddarpariaeth addysgol arbennig cyn 1 Medi 2021.
1 Ionawr 2022	Mae'r system ADY yn dechrau ar gyfer plant nad oes ganddynt ddarpariaeth addysgol arbennig ar 1 Ionawr 2022 – hyd yn oed os oedd ganddynt ddarpariaeth addysgol arbennig ar 1 Medi 2021.

Plant sydd ag AAA

Bydd plant yn symud o'r system AAA i'r system ADY mewn grwpiau. Y grŵp cyntaf sy'n symud o'r system AAA i'r system ADY yw plant sy'n:

- mynychu meithrinfa awdurdod lleol, ysgol awdurdod lleol neu UCD ac sydd ag AAA gyda chymorth drwy weithredu yn y blynyddoedd cynnar, gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy, gweithredu gan yr ysgol neu weithredu gan yr ysgol a mwy; ac
- nad oes ganddynt ddatganiad AAA ac nad ydynt yn rhan o broses datganiad AAA (er enghraifft, yn disgwyl penderfyniad am asesiad AAA neu'n disgwyl penderfyniad am ddatganiad AAA)

Amserlen ar gyfer pryd mae'n rhaid i blant yn y grŵp cyntaf gael eu symud i'r system ADY

Tymhorau'r gwanwyn a'r haf, blwyddyn ysgol 2021 i 2022	Meithrin Blynyddoedd 1 neu 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 neu Blwyddyn 10
Blwyddyn ysgol 2022 i 2023	Meithrin Blynyddoedd 1 a 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 5, Blwyddyn 9 a Blwyddyn 10
Blwyddyn ysgol 2023 i 2024	Blwyddyn 4 a Blwyddyn 8 ac unrhyw ddisgyblion eraill ag AAA ar 1 Ionawr 2022 sydd heb eu symud i'r system ADY yn ystod yr ail a'r drydedd flwyddyn o'i gweithredu

Nid oes angen i blant yn y grŵp cyntaf i symud, a'u rhieni, aros i ysgol, UCD neu awdurdod lleol gysylltu â nhw am blentyn yn symud i'r system newydd – gallant ofyn am gael symud i'r system newydd ar unrhyw adeg.

Mae hyn yn golygu y gall plant a'u rhieni, ar unrhyw adeg o fis Ionawr 2022, ofyn am gael symud i'r system newydd. Does dim gwahaniaeth ai dyma pryd mae'r ysgol, yr UCD neu'r awdurdod lleol yn bwriadu eu symud.

Bydd grwpiau eraill o blant a phobl ifanc yn symud o'r system AAA i'r system ADY rhwng mis Medi 2022 a mis Awst 2024. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau am hyn yn ddiweddarach.

Ceir mwy o fanylion am sut mae plant yn symud i'r system ADY ar ôl yr adran ar beth i'w wneud os ydych chi'n meddwl bod gan eich plentyn ADY.

Os ydych chi'n meddwl bod gan eich plentyn ADY

Os nad oedd gan eich plentyn AAA ar 1 Medi 2021, mae'r system ADY yn berthnasol i'ch plentyn. Bydd y system ADY yn berthnasol hefyd os oedd gan eich plentyn AAA ar 1 Medi 2021 ond nad oedd ganddo AAA ar 1 Ionawr 2022.

Os ydych chi'n meddwl bod gan eich plentyn ADY, mae'r camau i'w cymryd yn dibynnu ar oedran y plentyn ac a yw'n mynd i feithrinfa neu ysgol awdurdod lleol.

Gall plant sy'n mynychu meithrinfa awdurdod lleol, ysgol awdurdod lleol neu UCD, neu eu rhieni, ddweud wrth y CADY, y pennaeth neu'r athro dosbarth eu bod yn credu bod gan y plentyn ADY. Rhaid i'r feithrinfa, yr ysgol neu'r UCD wneud penderfyniad ynghylch a oes gan y plentyn ADY ac, os oes angen, llunio CDU.

Gall rhieni plant o'u geni hyd at 5 oed (o dan oedran ysgol gorfodol) nad ydynt yn mynychu meithrinfa awdurdod lleol neu ysgol awdurdod lleol ddweud wrth swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar yr awdurdod lleol neu'r tîm ADY y blynyddoedd cynnar. Weithiau bydd y tîm yn cael ei alw'n dîm cynhwysiant o enedigaeth i 5 oed neu dîm cynhwysiant y blynyddoedd cynnar.

Gallwch ddweud wrth yr awdurdod lleol eich bod yn credu bod gan eich plentyn ADY ar unrhyw adeg. Nid oes angen i'r plentyn gael ei atgyfeirio gan weithiwr proffesiynol (fel ymwelydd iechyd, darparwr gofal plant neu ddarparwr meithrin) ac nid oes rhaid i

blentyn fod ag unrhyw fath neu lefel benodol o angen i rywun ddweud wrth awdurdod lleol y gallai fod gan y plentyn ADY.

Pan fyddwch yn dweud wrth yr awdurdod lleol eich bod yn credu bod gan eich plentyn ADY, rhaid i'r awdurdod lleol wneud penderfyniad ynghylch a oes gan eich plentyn ADY ac, os oes angen, llunio CDU.

Cyn cysylltu â'r awdurdod lleol, efallai yr hoffech siarad â gweithiwr proffesiynol fel ymwelydd iechyd i drafod eich pryderon.

Gall plant o oedran ysgol gorfodol hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 10 nad ydynt yn mynychu ysgol awdurdod lleol neu UCD, neu eu rhieni, ddweud wrth dîm ADY yr awdurdod lleol eu bod yn credu bod gan y plentyn ADY.

Gallwch ddweud wrth yr awdurdod lleol eich bod yn credu bod gan eich plentyn ADY ar unrhyw adeg. Nid oes angen i'r plentyn gael ei atgyfeirio gan weithiwr proffesiynol (fel seicolegydd addysgol, therapydd lleferydd ac iaith neu weithiwr meddygol proffesiynol) ac nid oes rhaid i blentyn fod ag unrhyw fath neu lefel benodol o angen i rywun ddweud wrth awdurdod lleol y gallai fod gan y plentyn ADY.

Pan fyddwch yn dweud wrth yr awdurdod lleol eich bod yn credu bod gan eich plentyn ADY, rhaid i'r awdurdod lleol wneud penderfyniad ynghylch a oes gan eich plentyn ADY ac, os oes angen, llunio CDU.

Mae sawl ffordd o gael help a chyngor am ADY. Mae llawer o bethau y gellir eu gwneud hefyd os nad yw plentyn neu ei riant yn hapus â'r cymorth maen nhw/y plentyn yn ei gael. Nodir y rhain yn adran 4.

Plant sy'n newydd i'r system

Ar 1 Medi 2021, dechreuodd y system ADY ar gyfer plant (o'u geni hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 10) nad oedd ganddynt AAA ar 1 Medi. Gelwir y plant hyn yn blant sy'n newydd i'r system. Y rheswm am hyn yw nad oeddent yn derbyn unrhyw ddarpariaeth addysgol arbennig cyn 1 Medi 2021.

Mae plant sy'n newydd i'r system hefyd yn cynnwys plant nad oes ganddynt ddarpariaeth addysgol arbennig ar 1 Ionawr 2022 – hyd yn oed os oedd ganddynt ddarpariaeth addysgol arbennig ar 1 Medi 2021.

Ni all plant sy'n newydd i'r system fod yn rhan o'r broses datganiad. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn aros i asesiad gael ei wneud neu nad ydynt yn aros i ddatganiad gael ei wneud ar eu cyfer.

Mae'r system ADY yn dechrau ar gyfer pob plentyn (o'i eni hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 10) sydd wedi'i adnabod o'r newydd fel plentyn sydd ag ADY, neu y credir o'r newydd bod ganddo ADY. Does dim gwahaniaeth ble mae'n cael ei addysg. Mae plant sy'n mynychu meithrinfa neu ysgol annibynnol, meithrinfa neu ysgol awdurdod lleol, UCD, coleg, neu blant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref i gyd wedi'u cynnwys.

Mae hyn yn golygu os yw meithrinfa awdurdod lleol, ysgol awdurdod lleol, UCD neu awdurdod lleol yn credu bod gan blentyn ADY neu'n cael gwybod bod gan blentyn

ADY, rhaid iddo wneud penderfyniad ynghylch a oes gan blentyn ADY ac, os oes angen, llunio CDU. Gall plant a rhieni ddweud wrth feithrinfa awdurdod lleol, ysgol awdurdod lleol, UCD neu awdurdod lleol y gallai fod gan blentyn ADY. Nid oes rhaid i weithiwr proffesiynol fel ymwelydd iechyd neu feddyg wneud hyn (er y gall y bobl hyn wneud hynny hefyd).

Plant sy'n newydd i'r system ac sy'n mynychu meithrinfa awdurdod lleol, ysgol awdurdod lleol neu UCD

Os yw meithrinfa awdurdod lleol, ysgol awdurdod lleol neu UCD yn credu bod gan blentyn sy'n newydd i'r system ADY, neu y gallai fod ganddo ADY, rhaid iddo wneud penderfyniad ynghylch a oes ganddo ADY ac, os oes angen, llunio CDU ar gyfer y plentyn. Bydd ganddo 35 diwrnod ysgol i wneud hyn.

Gallai meithrinfa, ysgol neu UCD feddwl y gallai fod gan blentyn ADY am nad yw'n gwneud cynnydd da neu am fod ei riant neu rywun arall (fel meddyg) wedi dweud ei fod yn credu y gallai fod gan y plentyn ADY.

Weithiau, yr awdurdod lleol fydd yn gorfod gwneud y penderfyniad am blentyn sy'n mynychu meithrinfa, ysgol neu UCD. Gallai hyn fod oherwydd bod plentyn sy'n mynychu meithrinfa, ysgol neu UCD:

- ag anghenion cymhleth
- yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol
- wedi'i gofrestru mewn lleoliad addysg arall (fel ysgol arall neu UCD) hefyd; neu
- heb ei gofrestru mewn meithrinfa awdurdod lleol, ysgol awdurdod lleol neu UCD

Mae gan awdurdod lleol 12 wythnos i wneud penderfyniad ac, os oes angen, llunio CDU.

Plant sy'n newydd i'r system ac nad ydynt yn mynychu meithrinfa awdurdod lleol, ysgol awdurdod lleol neu UCD

Nid yw rhai plant yn mynychu meithrinfa awdurdod lleol, ysgol awdurdod lleol neu UCD. Mae hyn yn cynnwys plant sydd:

- o dan oedran ysgol gorfodol ac yn derbyn gofal gan eu teulu, yn mynychu meithrinfa annibynnol neu'n derbyn gofal gan warchodwr plant
- yn mynychu ysgol annibynnol
- yn cael addysg gartref gan eu rhieni (addysg ddewisol yn y cartref)
- yn derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY)

Mae'r system ADY yn sicrhau bod gan bob plentyn ag ADY CDU, p'un a ydynt yn mynychu meithrinfa, ysgol neu UCD ai peidio.

O 1 Medi 2021, gall plentyn nad yw'n mynychu meithrinfa awdurdod lleol, ysgol awdurdod lleol neu UCD, a'i rieni, roi gwybod i'r awdurdod lleol bod gan y plentyn ADY neu y gallai fod ganddo ADY. Rhaid i'r awdurdod lleol wneud penderfyniad

ynghylch a oes gan y plentyn ADY ac, os oes angen, llunio CDU. Rhaid i'r awdurdod lleol wneud hyn mewn 12 wythnos.

Rhaid i'r awdurdod lleol wneud penderfyniad am yr holl blant y dywedir wrtho amdanynt os nad ydynt yn mynychu meithrinfa awdurdod lleol, ysgol awdurdod lleol neu UCD. Nid oes angen i blant fod ag anghenion cymhleth i'r awdurdod lleol wneud penderfyniad.

Does dim gwahaniaeth pwy sy'n dweud wrth yr awdurdod lleol y gallai fod gan blentyn ADY. Gallai hyn gael ei wneud gan y rhieni neu gan weithwyr proffesiynol gan gynnwys ymwelwyr iechyd, meddygon, staff ysgolion meithrin preifat a gwarchodwyr plant.

Nid oes rhaid i blentyn fod ag unrhyw fath neu lefel benodol o angen i rywun ddweud wrth awdurdod lleol y gallai fod gan y plentyn ADY.

Plant ag AAA sy'n mynychu meithrinfa awdurdod lleol, ysgol awdurdod lleol neu UCD

Bydd plant yn symud o'r system AAA i'r system ADY mewn grwpiau. Y grŵp cyntaf sy'n symud o'r system AAA i'r system ADY yw plant sy'n:

- mynychu meithrinfa awdurdod lleol, ysgol awdurdod lleol neu UCD ac sydd ag AAA gyda chymorth drwy weithredu yn y blynyddoedd cynnar, gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy, gweithredu gan yr ysgol, neu weithredu gan yr ysgol a mwy; ac
- nad oes ganddynt ddatganiad AAA ac nad ydynt yn rhan o broses datganiad AAA (er enghraifft, yn disgwyl penderfyniad am asesiad AAA neu'n disgwyl penderfyniad am ddatganiad AAA)

Rhaid i feithrinfeydd awdurdod lleol, ysgolion awdurdod lleol, UCDau ac awdurdodau lleol symud y plant hyn o'r system AAA i'r system ADY rhwng mis Ionawr 2022 a mis Awst 2024.

Amserlen ar gyfer pryd mae'n rhaid i blant yn y grŵp cyntaf gael eu symud i'r system ADY

Tymhorau'r gwanwyn a'r haf, blwyddyn ysgol 2021 i 2022	Meithrin Blynyddoedd 1 neu 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 neu Blwyddyn 10
Blwyddyn ysgol 2022 i 2023	Meithrin Blynyddoedd 1 a 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 5, Blwyddyn 9 a Blwyddyn 10
Blwyddyn ysgol 2023 i 2024	Blwyddyn 4 a Blwyddyn 8 ac unrhyw ddisgyblion eraill ag AAA ar 1 Ionawr 2022 sydd heb symud i'r system ADY yn ystod yr ail a'r drydedd flwyddyn o'i gweithredu

Os nad yw meithrinfa awdurdod lleol, ysgol awdurdod lleol, UCD neu awdurdod lleol yn symud plentyn erbyn 30 Awst yn y flwyddyn y maent i fod i'w symud, bydd y plentyn yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar 31 Awst.

Mae hyn yn golygu os yw plentyn, er enghraifft, i fod i symud i'r system ADY yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf yn y flwyddyn ysgol 2021 i 2022 ac nad ydynt wedi cael hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU erbyn 30 Awst, bydd yn symud i'r system ADY ar 31 Awst 2022.

Yna, rhaid i'r feithrinfa awdurdod lleol, yr ysgol awdurdod lleol neu'r UCD wneud penderfyniad ynghylch a oes gan y plentyn ADY ac, os oes angen, llunio CDU o fewn 35 diwrnod ysgol i 31 Awst 2022. Mae gan awdurdod lleol 12 wythnos o 31 Awst 2022 i wneud penderfyniad ac, os oes angen, llunio CDU.

Sut mae meithrinfeydd awdurdod lleol, ysgolion awdurdod lleol, UCDau ac awdurdodau lleol yn symud plant i'r system ADY

Bydd y rhan fwyaf o blant yn symud o'r system AAA i'r system ADY pan fydd eu meithrinfa awdurdod lleol, ysgol awdurdod lleol, UCD neu awdurdod lleol yn rhoi hysbysiad CDU iddynt.

Meithrinfeydd, ysgolion ac UCDau fydd yn rhoi'r rhan fwyaf o'r hysbysiadau CDU ond weithiau bydd awdurdod lleol yn rhoi hysbysiad CDU.

Bydd awdurdodau lleol yn rhoi hysbysiadau CDU i blant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad addysg (fel UCD ac ysgol).

Mae hysbysiad CDU yn golygu bod meithrinfa, ysgol, UCD neu awdurdod lleol wedi penderfynu bod gan blentyn ADY ac y bydd CDU yn cael ei wneud ar gyfer y plentyn.

Mae'n fwyaf tebygol y bydd gan blant ag AAA â darpariaeth drwy weithredu yn y blynyddoedd cynnar, gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy, gweithredu gan yr ysgol, neu weithredu gan yr ysgol a mwy ADY.

Ar adegau, bydd plentyn a oedd ag AAA yn cael hysbysiad o'r enw hysbysiad dim CDU. Mae hysbysiad dim CDU yn golygu bod y feithrinfa, yr ysgol, yr UCD neu'r awdurdod lleol wedi penderfynu nad oes gan y plentyn ADY ac na fydd CDU yn cael ei wneud ar gyfer y plentyn.

Efallai y bydd plant yn cael hysbysiad dim CDU am fod eu hanghenion wedi newid ac nad oes angen cymorth arnynt mwyach i ddysgu.

Mae adran 4 yn nodi'r hyn y gall plant, a'u rhieni, neu bobl ifanc ei wneud os nad ydynt yn cytuno â phenderfyniad a wnaed gan y feithrinfa, yr ysgol, yr UCD neu'r awdurdod lleol i roi hysbysiad dim CDU.

Sut y gall plant a'u rhieni ofyn am i blentyn gael ei symud i'r system ADY

Gall plant yn y grŵp cyntaf sy'n symud o'r system AAA i'r system ADY, a'u rhieni, ofyn am gael symud i'r system ADY ar unrhyw adeg ar ôl 1 Ionawr 2022.

Gall plant a'u rhieni wneud hyn drwy ofyn i'r feithrinfa awdurdod lleol, yr ysgol awdurdod lleol, yr UCD neu'r awdurdod lleol eu symud i'r system ADY drwy roi hysbysiad. Gellir gwneud hyn yn ysgrifenedig (megis mewn ebost neu neges) neu ar lafar (megis yn bersonol neu mewn galwad ffôn).

Rhaid i'r feithrinfa awdurdod lleol, yr ysgol awdurdod lleol neu'r UCD roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU o fewn 15 diwrnod ysgol. Rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU o fewn 15 diwrnod gwaith.

Weithiau bydd awdurdod lleol yn rhoi hysbysiad ADY i symud plentyn i'r system ADY. Rhaid i'r awdurdod lleol wneud hyn mewn 10 diwrnod gwaith.

Symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY

Mae rhai newidiadau mewn amgylchiadau sy'n golygu y bydd plentyn yn symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY.

Mae hyn yn golygu nad oes angen rhoi hysbysiad i blentyn a'i riant i'r plentyn symud o'r system AAA i'r system ADY.

Bydd plentyn yn symud yn awtomatig os oedd mewn meithrinfa awdurdod lleol, ysgol awdurdod lleol neu UCD ar 1 Ionawr 2022 ac yna:

- wedi dod yn ddisgybl cofrestredig neu'n fyfyriwr ymrestredig mewn lleoliad addysg arall, megis ysgol arall neu UCD (wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad addysg)
- wedi dechrau derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru; neu
- wedi rhoi'r gorau i fynd i'r ysgol (nid yw hyn yn cynnwys os oedd plentyn wedi rhoi'r gorau i fynd i'r ysgol ar ddiwedd ei gyfnod yn y feithrinfa i symud i ysgol gynradd neu wedi rhoi'r gorau i fynd ar ddiwedd ei gyfnod yn yr ysgol gynradd i fynd i ysgol uwchradd)

Os oedd plentyn yn derbyn gofal ar 1 Ionawr 2022 ac wedi stopio derbyn gofal, bydd yn symud i'r system newydd yn awtomatig.

Hefyd, os oedd plentyn yn mynychu 2 leoliad addysg (fel 2 ysgol neu UCD ac ysgol) ar 1 Ionawr 2022, ac yna dim ond un lleoliad addysg, bydd y plentyn yn symud yn awtomatig i'r system ADY.

Mae symud yn awtomatig yn golygu bod rhaid i'r feithrinfa awdurdod lleol, yr ysgol awdurdod lleol, yr UCD neu'r awdurdod lleol wneud penderfyniad ynghylch a oes gan blentyn ADY pan fo'n credu y gallai fod gan blentyn ADY. Os yw'n penderfynu bod gan y plentyn ADY, rhaid i'r feithrinfa awdurdod lleol, yr ysgol awdurdod lleol, yr UCD neu'r awdurdod lleol roi CDU i'r plentyn.

Grwpiau o blant yn symud rhwng mis Medi 2022 a mis Awst 2024

Bydd y grwpiau canlynol o blant a phobl ifanc yn symud i'r system ADY rhwng mis Medi 2022 a mis Awst 2024.

- Plant sydd ag AAA ac nad ydynt yn mynd i feithrinfa awdurdod lleol, ysgol awdurdod lleol neu UCD
- Plant sydd ym Mlwyddyn 11
- Plant sydd â datganiad AAA neu gynllun addysg a gofal iechyd (EHCP)
- Plant sy’n rhan o broses datganiad AAA

Bydd amserlen ar gyfer symud y plant a'r bobl ifanc hyn o'r system AAA i'r system ADY yn cael ei chyhoeddi yn 2022.

6. Cwestiynau cyffredin

Nid yw fy mhlentyn erioed wedi cael cynllun cymorth ond gallai wneud â rhywfaint o help – beth ddylwn i ei wneud?

Os nad oedd gan eich plentyn AAA ar 1 Medi 2021, mae'r system ADY yn berthnasol i'ch plentyn. Bydd y system ADY yn berthnasol hefyd os oedd gan eich plentyn AAA ar 1 Medi 2021 ond nad oedd ganddo AAA ar 1 Ionawr 2022.

Os ydych chi'n meddwl bod gan eich plentyn ADY, mae'r camau i'w cymryd yn dibynnu ar oedran y plentyn ac a yw'n mynd i feithrinfa neu ysgol awdurdod lleol.

Gall plant sy'n mynychu meithrinfa awdurdod lleol, ysgol awdurdod lleol neu UCD, neu eu rhieni, ddweud wrth y CADY, y pennaeth neu'r athro dosbarth eu bod yn credu bod gan y plentyn ADY. Rhaid i'r feithrinfa, yr ysgol neu'r UCD wneud penderfyniad ynghylch a oes gan y plentyn ADY ac, os oes angen, llunio CDU.

Gall rhieni plant o'u geni hyd at 5 oed (o dan oedran ysgol gorfodol) nad ydynt yn mynychu meithrinfa awdurdod lleol neu ysgol awdurdod lleol ddweud wrth swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar yr awdurdod lleol neu'r tîm ADY y blynyddoedd cynnar. Weithiau bydd y tîm yn cael ei alw'n dîm cynhwysiant o enedigaeth i 5 oed neu'n dîm cynhwysiant y blynyddoedd cynnar.

Gallwch ddweud wrth yr awdurdod lleol eich bod yn credu bod gan eich plentyn ADY ar unrhyw adeg. Nid oes angen i'r plentyn gael ei atgyfeirio gan weithiwr proffesiynol (fel ymwelydd iechyd, darparwr gofal plant neu ddarparwr meithrin) ac nid oes rhaid i blentyn fod ag unrhyw fath neu lefel benodol o angen i rywun ddweud wrth awdurdod lleol y gallai fod gan y plentyn ADY.

Pan fyddwch yn dweud wrth yr awdurdod lleol eich bod yn credu bod gan eich plentyn ADY, rhaid i'r awdurdod lleol wneud penderfyniad ynghylch a oes gan eich plentyn ADY ac, os oes angen, llunio CDU.

Cyn cysylltu â'r awdurdod lleol, efallai yr hoffech siarad â gweithiwr proffesiynol fel ymwelydd iechyd i drafod eich pryderon.

Gall plant o oedran ysgol gorfodol hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 10 nad ydynt yn mynychu ysgol awdurdod lleol neu UCD, neu eu rhieni, ddweud wrth dîm ADY yr awdurdod lleol eu bod yn credu bod gan y plentyn ADY.

Gallwch ddweud wrth yr awdurdod lleol eich bod yn credu bod gan eich plentyn ADY ar unrhyw adeg. Nid oes angen i'r plentyn gael ei atgyfeirio gan weithiwr proffesiynol (fel seicolegydd addysgol, therapydd lleferydd ac iaith neu weithiwr meddygol proffesiynol) ac nid oes rhaid i blentyn fod ag unrhyw fath neu lefel benodol o angen i rywun ddweud wrth awdurdod lleol y gallai fod gan y plentyn ADY.

Pan fyddwch yn dweud wrth yr awdurdod lleol eich bod yn credu bod gan eich plentyn ADY, rhaid i'r awdurdod lleol wneud penderfyniad ynghylch a oes gan eich plentyn ADY ac, os oes angen, llunio CDU.

Mae sawl ffordd o gael help a chyngor am ADY. Mae llawer o bethau y gellir eu gwneud hefyd os nad yw plentyn, neu ei riant, yn hapus â'r cymorth mae'r plentyn yn ei gael. Nodir y rhain yn adran 4.

Mae gan fy mhlentyn AAA ac mae'n cael cymorth drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy. A fydd gan fy mhlentyn ADY ac a fydd yn cael CDU?

Mae ystyr AAA ac ADY yr un fath. Mae'n fwyaf tebygol y bydd gan blant ag AAA ADY. Bydd gan bob plentyn sydd ag ADY CDU.

Ar adegau, ni fydd gan blentyn ag AAA ADY gan fod ei anghenion wedi newid ac nad oes angen cymorth ychwanegol arno mwyach i'w helpu i ddysgu.

Bydd y plentyn yn cael hysbysiad dim CDU. Os nad yw'r plentyn neu ei riant yn cytuno â'r hysbysiad dim CDU, gall siarad â'r feithrinfa awdurdod lleol, yr ysgol awdurdod lleol, yr UCD neu'r awdurdod lleol am y mater.

Gall plant, neu eu rhieni, ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried penderfyniad meithrinfa awdurdod lleol, ysgol awdurdod lleol neu UCD. Os ydynt yn anhapus gyda phenderfyniad yr awdurdod lleol, gallant apelio i'r Tribiwnlys i wneud penderfyniad.

Mae gan fy mhlentyn AAA ac mae'n cael cymorth drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy. A fydd y cymorth mae fy mhlentyn yn ei gael yn newid o dan y system ADY?

Pan fydd plant yn symud i'r system ADY, byddant yn parhau i gael yr un cymorth yn ôl pob tebyg. Y rheswm am hyn yw bod y gyfraith yn dweud bod rhaid i feithrinfeydd awdurdod lleol, ysgolion awdurdod lleol, UCDau ac awdurdodau lleol feddwl am y cymorth mae plentyn eisoes yn ei gael pan fyddant yn gwneud y CDU.

Weithiau, bydd anghenion plentyn wedi newid ac efallai y bydd angen llai o gymorth neu fwy o gymorth ar y plentyn. Dylai plant a rhieni fod yn rhan o drafodaethau am anghenion cymorth.

Os oes gan bob plentyn ag ADY CDU, a fydd pob plentyn yn cael yr un math o ddarpariaeth?

Gelwir y system bresennol o weithredu gan yr ysgol, gweithredu gan yr ysgol a mwy a datganiad yn ddull graddedig. Y syniad o ddull graddedig yw dechrau gyda lefel isel o ddarpariaeth addysgol arbennig ac, os nad yw hyn yn helpu plentyn i wneud cynnydd, yna rhoddir mwy o gymorth. Mae hyn yn golygu y gall plant symud o weithredu gan yr ysgol i weithredu gan yr ysgol a mwy ac i ddatganiadau yn dibynnu ar faint o gymorth sydd ei angen arnynt.

Mae'r system ADY yn disodli gweithredu gan yr ysgol, gweithredu gan yr ysgol a mwy a datganiadau. Ond efallai y bydd ysgolion, UCDau ac awdurdodau lleol yn dal i ddefnyddio dull graddedig wrth gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY.

Gellir galw'r ymateb graddedig, er enghraifft, yn ddarpariaeth yn yr ysgol (darperir darpariaeth ddysgu ychwanegol gan staff sy'n gweithio yn yr ysgol), darpariaeth wedi'i thargedu (darperir darpariaeth ddysgu ychwanegol gan staff arbenigol fel

therapyddion lleferydd ac iaith) a darpariaeth benodol (fel lleoliad mewn ysgol arbennig) ar gyfer y plant hynny ag ADY sydd ag anghenion mwy cymhleth.

Mae dull graddedig o dan y system ADY yn wahanol i'r dull graddedig o dan y system AAA.

O dan y system AAA, ni roddwyd pob lefel o'r dull graddedig mewn cynllun statudol (datganiad). Dim ond anghenion cymorth lefel uchel neu anghenion cymorth cymhleth a roddwyd mewn datganiad. Rhoddwyd anghenion cymorth lefel isel (gweithredu gan yr ysgol) a lefel ganolig (gweithredu gan yr ysgol a mwy) mewn cynllun addysg unigol. Nid yw cynllun addysg unigol yn gynllun statudol.

O dan y system ADY, bydd pob lefel o'r dull graddedig yn cael ei rhoi mewn cynllun statudol (CDU). Bydd anghenion cymorth lefel uchel, lefel ganolig a lefel isel yn cael eu rhoi mewn CDU.

Mae'r dull graddedig yn ymwneud â lefel y cymorth a nodir mewn CDU.

Mae hyn yn golygu y bydd gan bob plentyn sydd ag ADY gynllun statudol (CDU), pa lefel bynnag o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen arno. Y rheswm am hyn yw bod CDUau yn cael eu defnyddio ar gyfer pob lefel o'r dull graddedig.

Gall CDU ddechrau drwy ddweud y bydd ychydig o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei darparu gan yr ysgol. Os na fydd y plentyn yn gwneud cynnydd, bydd y CDU yn cael ei adolygu a bydd yn nodi mwy o gymorth y gallai fod ei angen ar blentyn. Gallai hyn gynnwys darpariaeth a ddarperir gan athrawon neu gan wasanaethau eraill fel therapydd lleferydd ac iaith.

Os bydd plentyn yn parhau i beidio â gwneud cynnydd, efallai y bydd angen mwy o gymorth nag y gall yr ysgol ei ddarparu. Yna, bydd yr ysgol yn atgyfeirio'r CDU i'r awdurdod lleol.